

# RHEOLIADAU AC IS-DDEDDFAU TERMS OF BUSINESS & REGULATIONS



*Mae pob defnydd o'r Hafan yn ddarostyngedig i'r Rheolau hyn,  
a hefyd yn ddarostyngedig a'r Rheoliadau'r British Marine  
Federation, o ble mae'r Awdurdod Harbwr yn aelod.  
Arddangosir copi o'r Rheoliadau'r BMF ar Hysbysfwrdd  
Cyhoeddus yr Awdurdod Harbwr neu mewn man arall amlwg a  
bydd copïau ar gael oddi wrth yr Awdurdod Harbwr ar gais.*

*Am wybodaeth ychwanegol cysylltwch â swyddfa'r Hafan ar  
01758 701219*

All use of Hafan Pwllheli Harbour is subject to our Rules and Regulations in addition to the Terms of Business of the British Marine Federation, of which the Harbour Authority (Gwynedd Council) is a member. A copy of the BMF Regulations is displayed on the notice board in reception.

If you need further advice, guidance or information call the Hafan office on 01758 701219



## DIFFINIAD O'R TERMAU A DDEFNYDDIR

Pan fo'r geiriau canlynol yn ymddangos yn yr Amodau, y Cytundeb a Rheoliadau'r Cyngor byddant yn golygu fel a ganlyn:

**Awdurdod Harbwr** yw Cyngor Gwynedd. Mae Awdurdod Harbwr yn golygu'r Cyngor neu unrhyw un o'i Asiantau y mae ceisiadau am ddociau'n cael eu cyflwyno iddynt a gallai fod yn un neu ragor o'i Gwmnïau Cysylltiedig, Consesiynau, Tenantiaid a Chynrychiolwyr sy'n gweithredu yn yr Iard Trwsio Cychod, Gwerthwyr Cychod neu unrhyw ddarpariaeth arall yn yr Hafan.

**Yr Hafan** yn cynnwys yr Harbwr Cychod Hwylïo'r Hafan, y Dociau ac unrhyw ddarpariaeth arall ar gyfer lansio, llywio, clymu neu ddocio Cychod.

**Yr Eiddo** yn golygu'r tir, dwr cyfagos ac adeiladau'n cael eu defnyddio gan neu o dan reolaeth y Cyngor gan gynnwys y dociau, llithrfeydd, pontwns, glanfeydd, pob cei, pierau, angorfeydd ar fwd, siedau, lloffttydd, gweithdai, tir caled, ffyrdd a meysydd parcio.

**Y Perchennog / Cwsmer** yn cynnwys unrhyw berchennog cwch, siarterydd, meist, asiant neu berson arall am y cyfnod y mae â chyfrifoldeb am y Cwch, ac eithrio'r Awdurdod Harbwr.

**Y Cwch** yn cynnwys unrhyw ffurf ar lestr, cwch, llong, cwch hwylïo, cwch bach, aml gragen neu strwythur morwrol arall sydd o dan ofal a rheolaeth y Perchennog / Cwsmer.

**Cyfanswm Hyd** yn golygu cyfanswm hyd y gofod sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cwch gan gynnwys unrhyw estyniadau y tu blaen neu y tu ôl, dros dro neu'n sefydlog.

**Doc** yn golygu lle ar y dŵr neu dir sy'n cael ei ddyrannu o dro i dro i'r Perchennog / Cwsmer gan y Awdurdod Harbwr ar gyfer y Cwch yn ystod cyfnod y Cytundeb hwn.

**Lle Storio** ar y Lan yn golygu man ar y tir wedi'i ddyrannu dros dro i'r Perchennog/ Cwsmer o dro i dro gan yr Awdurdod Harbwr ar gyfer storio Cwch ar y lan yn ystod cyfnod y Cytundeb.

**Pontwn** yn golygu strwythur symudol, wedi'i angori, wedi'i ddecio ac yn nofio ar y dwr yn darparu adnoddau glanio a docio.

**Gwasanaethau'r Hafan** yn golygu'r adnoddau a ddarperir gan y Awdurdod Harbwr fel rhan o'r Cytundeb Docio megis: maes parcio, gofalu am allweddi, storio a derbyn nwyddau dros dro ar ran y Perchennog / Cwsmer, darparu cawodydd, toiledau, adnoddau golchdy, diogelwch y safle, darparu gwybodaeth a rhagolygon y tywydd o dro i dro, biniau ar gyfer casglu ysbwriel, cyflenwadau trydan a dwr.

## DEFINITIONS OF TERMS USED

**"Premises"** means all the land, adjacent water and buildings occupied by or under the control of the Harbour Authority, including docks, slipways, pontoons, jetties, quays, piers, mudberths, sheds, lofts, workshops, hardstanding, roadways and car parks.

**"Harbour Authority"** refers to Gwynedd Council and its agents.

**"Owner/Customer"** shall include any boat owner, charterer, master, agent or other person for the time being in charge of the Vessel, excluding the Harbour Authority.

**"Vessel"** shall include any form of craft, boat, ship, yacht, dinghy, multihull, or other marine structure which is in the care and control of the Owner/Customer.

**"Length Overall (LOA)"** means the overall length of the space occupied by the Vessel including any fore and aft fixed projections, temporary or permanent.

**"Berth"** means the space on water or land from time to time allocated to the Owner/ Customer by the Harbour Authority for the Vessel during the term of the Agreement.

**"Storage Ashore"** means the land space temporarily allocated to the Owner/Customer from time to time by the Harbour Authority for the storage ashore of the Vessel during the term of the Agreement.

**"Pontoon"** means a moored, decked, floating and moveable structure providing landing or mooring facilities.

**"Services"** means the facilities provided by the Harbour Authority as part of a Berthing Agreement, such as: car parking, temporary storage and receiving of goods on the Owner's/Customer's behalf, provision of showers, toilets, laundry facilities, site security, provision of information and weather forecasts from time to time, receptacles for refuse collection, supply of electrical power and water.



## 1.0 RHEOLAU'R AWDURDOD HARBWR

*Mae pob defnydd o'r Hafan yn ddarostyngedig i'r Rheolau hyn, a hefyd yn ddarostyngedig a'r Rheoliadau'r British Marine Federation, o ble mae'r Awdurdod Harbwr yn aelod. Arddangosir copi o'r Rheoliadau'r BMF ar Hysbysfwrdd Cyhoeddus yr Awdurdod Harbwr neu mewn man arall amlwg a bydd copïau ar gael oddi wrth yr Awdurdod Harbwr ar gais.*

- 1.1 *Mae gan y cyhoedd hawl i fynd ar flaendraeth yr Hafan. Felly, dylai Perchnogion sicrhau fod eu cychod, cerbydau ac eiddo arall yn ddiogel rhag i neb fynd iddynt a lladrata.*
- 1.2 *Ni chaniateir hysbysebion i werthu na hysbysebion gan gwmnïoedd ar gychod na cherbydau tra ar dir yr Awdurdod Harbwr.*
- 1.3 *Ni chaniateir ymdrochi na physgota yn yr Hafan. Rhaid i blant bach wisgo siaced achub bywyd a bod gydag oedolyn bob amser.*
- 1.4 *Rhaid i berchnogion ystyried defnyddwyr eraill yr Hafan. Mae Perchnogion yn gyfrifol am ymddygiad eu plant a'u hanifeiliaid anwes. Gofynnir i'r rhai sy'n achosi niwsans adael yr harbwr.*
- 1.5 *Er mwyn hylendid, ni chaniateir gollwng papur na deunydd solet o'r toiled tra bo'r cwch yn yr Hafan. Ni chaniateir gollwng petrol, tanwydd na dŵr gwaelodion wedi'i lygru gan olew nac ysbwriel i'r Hafan na gadael iddynt ddianc i'r dŵr.*
- 1.6 *Dyfynnir pris safonol angori ar gyfer defnyddwyr preifat yn ôl cyfanswm hyd y cwch mewn medrau gan gynnwys pob estyniad a chan gynnwys hefyd bob treth, tollau harbwr, tâl am barcio car preifat y Perchennog, dwr a Gwasanaethau arferol yr Hafan i gynnwys TAW. Bydd unrhyw ran o ddesimedr yn cyfrif fel desimedr cyfan, gydag isafswm pris yn cyfateb i 7.0 metr. Mae prisiau arbennig ar gyfer cychod gyda thrawst o fwy na thraean o gyfanswm ei hyd. Codir y tâl angori safonol blynyddol ar ddefnyddwyr masnachol yn ôl hyd cyffredinol mwyaf y cwch y gellir ei gadw ar angorfa benodol. Am gytundebau newydd sydd yn dechrau ar ôl 1af Ebrill 2006 codir tâl safonol yn ôl hyd cyffredinol mwyaf y cwch y gellir ei gadw ar angorfa benodol.*
- 1.61 *Mae prisiau fesul metr gan gynnwys TAW yn seiliedig ar LOA. Mae Hyd Cyffredinol (LOA) yn golygu y gofod a feddiannir gan y cwch gan gynnwys unrhyw estyniadau blaen a chefn, dros dro neu barhaol, a allai gynnwys cychod dŵr personol, tendrau, davits, brigau bwa, ysgolion byrddio, gyriannau cefn, motor allanol, llyw, angorau, pulpits neu pushpits ac unrhyw estyniad arall. Ni chaniateir unrhyw estyniadau port neu starboard o'r gwch.*

## 1.0 RULES AND REGULATIONS

All use of Hafan Pwllheli Harbour is subject to the following Rules and Regulations in addition to the Terms of Business of the British Marine Federation, of which the Harbour Authority (Gwynedd Council) is a member. A copy of the BMF Regulations is displayed on the notice board at reception.

- 1.1 The Public have the right of access to the Harbour foreshore, accordingly Owners should ensure that their boats, vehicles and other property are made secure against entry or theft.
- 1.2 For Sale notices and company advertising are not permitted on vessels or vehicles whilst on the Harbour Authority's premises.
- 1.3 Bathing within the Harbour is not permitted. Small children should wear life jackets at all times and have an adult in attendance.
- 1.4 Owners must be considerate to other Harbour users. Owners are responsible for the conduct of their children and pets. Those causing nuisance will be asked to leave the harbour.
- 1.5 In the interests of hygiene, no paper or solid matter shall be discharged from toilets while a vessel is in the Harbour. No petrol, fuel or oil contaminated bilge water or refuse shall be discharged or allowed to escape into the Harbour.
- 1.6 The standard visitor berthing charge for private users is quoted per metre length overall including all fixed projections, inclusive of rates, harbour dues, parking for the Owner's private car, and water and is inclusive of VAT, any fraction of a decimetre counting as a whole decimetre, with a minimum charge equivalent to 7.0 metres. Special rates may apply to craft where the beam is greater than 1/3rd of its overall length. The standard annual berthing charge for commercial users is per the maximum length overall which can be accommodated on the allocated berth plus a commercial percentage fee as per the annual tariff. For all new berthing contracts commencing after 1st April 2006 the standard annual charge is quoted per the maximum length overall which can be accommodated on the berth.
- 1.61 Prices per metre inc of VAT are based on LOA. Length Overall (LOA) means the overall length of the space occupied by the vessel including any fore and aft fixed projections, temporary or permanent, which might include personal water craft, tenders, davits, bowsprits, boarding ladders, sterndrives, outboards, rudders, anchors, pulpits pushpits and any other extension. No projections allowed port or starboard of vessel.

- 1.7 Mae'r ffi angori flynyddol yn cynnwys tâl am wasanaeth trydan i'r angorfa. Mae'r Awdurdod Harbwr yn cadw'r hawl i fonitro faint o drydan a ddefnyddir a gellir codi tâl amdano yn ychwanegol ac ar wahân. Codir am drydan ar y lan yn ôl y dydd neu drwy fesurydd. Mae'r Awdurdod Harbwr yn cadw'r hawl i fesur unrhyw gyflenwad yn ôl ei ddisgresiwn. Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Awdurdod Harbwr i gyflenwi trydan i unrhyw angorfa. Er mwyn cael gwell diogelwch ac i fodloni Rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd gosodwyd dyfeisiadau diogelu sensitif rhag gorlwyth ar y sustem drydan rhag i drydan ddianc. Golyga'r rhain nid yw'r Awdurdod Harbwr yn gallu gwarantu cysondeb y cyflenwad na bod yn gyfrifol am y canlyniadau pe byddai'r dyfeisiadau diogelwch hyn yn tanio.
- 1.8 Polisi'r Awdurdod Harbwr yw sicrhau fod y pontŵn docio'n dri chwarter cyfanswm hyd y cwch. Bydd Meistr yr Hafan yn ymdrechu i sicrhau fod y canllaw hwn yn cael ei ddilyn ond ni ellir rhoi ymrwymadau pendant y ei gylch.
- 1.9 Rhaid i'r Perchennog hysbysu'r Awdurdod Harbwr o'i fwriad i werthu'i gwch.
- 1.10 Mae mynediad i'r Hafan ar dir neu ddŵr yn golygu derbyn ei rheoliadau, amodau a phrisiau a gyhoeddwyd, yr olaf i'w talu o flaen llaw.
- 1.11 Mae'r Awdurdod Harbwr yn cadw'r hawl i wrthod adnewyddu unrhyw Gytundeb Docio a Gwasanaethau Hafan yn ôl ei ddisgresiwn.
- 1.12 Mae'r Awdurdod Harbwr yn cadw'r hawl i beidio â derbyn tâl mewn arian parod.
- 1.13 Ni fydd unrhyw newidiadau i brisiau na thelerau safonol ac amodau busnes yr Awdurdod Harbwr oni bai fod y newid yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig gan Reolwr yr Hafan neu gan gyfarwyddwr awdurdodedig yr Awdurdod Harbwr.
- 1.14 Rhaid hysbysu swyddfa'r Hafan o unrhyw ddigwyddiad neu beryglon ar yr eiddo ar unwaith, ac yn ysgrifenedig o fewn mis os bydd yn arwain at hawliad cyfreithiol.
- 1.15 Mae'r Awdurdod Harbwr yn cadw'r hawl i fynd ar a/neu symud (gan ddefnyddio grym rhesymol petai angen) unrhyw gwch neu gerbyd yn yr Hafan mewn argyfwng neu er mwyn rhwystro neu atal niwsans. Bydd y Perchennog yn gyfrifol am gost gweithredu felly. Ni fydd yr Awdurdod Harbwr yn gyfrifol i'r Perchennog am unrhyw golled, costau neu ddifrod sy'n disgyn i ran y Perchennog pan weithredir felly.

- 1.7 The annual berthing fee includes a pontoon electricity service charge. The Harbour Authority reserves the right to monitor unitary consumption which may be charged additionally and separately. Electricity ashore is charged on a daily or metered basis. The Harbour Authority reserves the right to meter any supply at its discretion. The Harbour Authority is under no obligation to provide power to each or any berth. For greater safety and to satisfy EEC Regulations the system is fitted with sensitive overload and earth leakage protection devices; because of these the Harbour Authority cannot guarantee continuity of supply or be liable for the consequences of these safety devices operating.
- 1.8 The policy of Harbour Authority is to see that the mooring pontoon is three quarters of the overall length of the vessel and the marina Haven Masters will try to see that this guideline is followed, but no firm undertaking can be made in this respect.
- 1.9 The Owner shall notify Harbour Authority of his/her intention to sell the vessel.
- 1.10 Entry into the Harbour by land or water entails acceptance of its published regulations, conditions and charges, the last named to be payable in advance.
- 1.11 The Harbour Authority reserves the right to refuse renewal of any Berthing and Services Agreement at its discretion.
- 1.12 The Harbour Authority reserves the right not to accept cash payments.
- 1.13 No variation to Harbour Authority's published charges or standard terms of business can be entertained unless such variation is confirmed in writing by the Manager, or by an authorised Officer of the Harbour Authority.
- 1.14 Any incidents or dangerous hazards on the premises must be reported to the Hafan office immediately, and in writing within one month if leading to a legal claim.
- 1.15 The Harbour Authority reserves the right to enter and/or remove, (using reasonable force if necessary), any vessel or vehicle on the Harbour Authority's premises in an emergency or in order to prevent or stop a nuisance. The Owner shall be responsible for the cost of such action. The Harbour Authority shall not be liable to the Owner for any loss, costs or damage suffered or incurred by the Owner where such action is taken.

- 1.16 *Ni oddefir ymddygiad sarhaus neu fygythiol tuag at unrhyw aelod o staff yAwdurdod Harbwr o dan unrhyw amgylchiad. Mae'r Awdurdod Harbwr yn cadw'r hawl i ofyn i unrhyw un sy'n euog o ymddygiad o'r fath i adael yr Hafan.*
- 1.17 *Bydd rhywun yn swyddfa'r Hafan bob dydd o'r flwyddyn ar wahân i Ddydd Nadolig.*
- 1.18 *Mae'r Perchennog yn derbyn cyfrifoldeb llawn am angori yn ddiogel. Maer perchennog yn gyfrifol am ddarparu cyfarpar priodol ac addas i sicrhau y cwch i'r angorfa pontwân / peil angori neu bwi yn yr Harbwr. Rhaid i'r Perchennog hysbysu'r Awdurdod Harbwr yn ysgrifenedig am unrhyw ddifrod i unrhyw eiddo'r Awdurdod yr Harbwr ar unwaith, a bydd yn indemnio'r Awdurdod yr Harbwr o, ac yn erbyn, pob hawliad, colled, gorchymyn, neu gostau eraill sy'n codi o ddifrod o'r fath.*
- 1.19 *Mae Awdurdod yr Harbwr ddim yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am farwolaeth neu anaf a achosir i unrhyw berson, neu ddifrod i unrhyw eiddo'r perchennog neu i westeion, asiantau neu weithwyr, neu unrhyw berson erall ac eithrio pan fydd gweithred o'r fath yn gysylltiedig esgeulustod ar ran Awdurdod yr Harbwr, eu gweision, neu asiant ac eithrio fel a nodwyd uchod bydd yr ymgeisydd indemnio ac yn parhau Awdurdod yr Harbwr yn erbyn pob hawliad colled neu ofynion neu dreuliau eraill sy'n deillio o hynny.*

## **2.0 Y CYTUNDEB**

- 2.1 *Darperir dociau a gwasanaethau yn yr Hafan am y cyfnodau ac am y prisiau a bennir o dro i dro ac a gyhoeddir gan yr Awdurdod Harbwr ar ei eiddo ac sy'n weithredol ar ddechrau'r Cytundeb hwn. Cyflwynir manylion y taliadau a thermâu tâl ynghylch Dociau Angorfeydd i'r Perchennog / Cwsmer yn ysgrifenedig gyda'r Cytundeb.*

## **3.0 NATUR BERSONOL Y CYTUNDEB**

- 3.1 *Mae'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r Perchennog / Cwsmer ac mae ynghylch y Cwch a ddisgrifir yn y cais am ddoc. Ni ellir ei drosglwyddo na'i aseinio i Berchennog / Cwsmer newydd nag i Gwch newydd, un ai dros dro na'n barhaol, heb ganiatâd penodol ysgrifenedig yr Awdurdod Harbwr.*

- 1.16 *Abusive or threatening behaviour toward any member of the Harbour Authority personnel will not be tolerated under any circumstances. The Harbour Authority reserves the right to request any party guilty of such offensive behaviour to leave the premises.*
- 1.17 *The Hafan Premises will be manned every day of the year except Christmas Day.*
- 1.18 *The Owner shall accept full responsibility for the safe berthing/mooring of the vessel. The Owner is responsible for providing proper and suitable equipment that secures the vessel to the pontoon berth/mooring pile or riser within the Harbour. The Owner shall notify the Harbour Authority in writing of any damage to any property of the Harbour Authority forthwith, and shall indemnify the Harbour Authority from, and against, all claims, loss, demands, or other expenses arising from such damage.*
- 1.19 *The Harbour Authority accepts no liability whatsoever for the death or injury caused to any person, or damage to any property of the Owner or his/her guests, agents or employees, or any other persons except where such act involved negligence on the part of the Harbour Authority, their servants, or agent and save as aforesaid the applicant shall indemnify and keep the Harbour Authority against all claims loses or demands or other expenses arising there from.*

## **2.0 THE AGREEMENT**

- 2.1 *Berths and services shall be provided for the periods and at the rates of charge from time to time published by the Harbour Authority at its Premises and in force at the commencement of this Agreement. Details of the charges and payment terms applicable to the Berths and Services will be given to the Owner/Customer in writing to accompany the Agreement.*

## **3.0 PERSONAL NATURE OF THE AGREEMENT**

- 3.1 *This Agreement is personal to the Owner/Customer and relates to the Vessel described in the application for berthing. It may not be transferred or assigned to a new Owner/Customer or to a different Vessel, either temporarily or permanently, without the express written consent of the Harbour Authority.*

- 3.2 *Rhaid i'r Perchennog / Cwsmer hysbysu'r Awdurdod Harbwr yn ysgrifenedig pan fydd wedi cytuno i werthu, trosglwyddo neu forgeisio Cwch gydag enw, cyfeiriad a rhifau ffôn y Prynwr, Trosglwyddydd neu'r Morgeisiai.*

#### **4.0 DEFNYDD O DDOC GAN YR AWDURDOD HARBWR PAN FO'N WAG**

- 4.1 *Ni chaniateir unrhyw Berchennog / Cwsmer isosodi'r angorfa yn breifat i drydydd barti.*

#### **5.0 NEWID MANYLION**

- 5.1 *Rhaid i'r Perchennog / Cwsmer hysbysu'r Awdurdod Harbwr o'r manylion yn ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod os newidir enw'r Cwch neu gyfeiriad neu rhif ffôn y Perchennog / Cwsmer.*

#### **6.0 DYRANNU DOCIAU**

- 6.1 *Golyga gosodiad yr Hafan a'r Eiddo a gofynion a dyletswyddau amrywiol yr Awdurdod Harbwr a'r Perchenogion / Cwsmeriaid fod raid i'r Awdurdod Harbwr gadw hawl llwyr ar sut y dyrennir Dociau ar y dŵr ac ar y lan. Felly, ni fydd gan Berchennog/ Cwsmer hawl i ddefnyddio unrhyw un Doc yn benodol iddo'i hun ond yn hytrach bydd raid iddo ddefnyddio unrhyw Ddoc a ddyrennir iddo o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod Harbwr.*

#### **7.0 ATEBOLRWYDD, INDEMNIAID AC YSWIRIANT**

- 7.1 *Ni fydd yr Awdurdod Harbwr yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth (fel tywydd drwg, ymddygiad trydydd partïon nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Harbwr neu ddiffyg mewn unrhyw ran o Gwch y Perchennog / Cwsmer neu drydydd parti); mae hyn yn ymestyn i golled neu ddifrod i Gychod a chyfarpar neu nwyddau eraill sy'n cael eu gadael gyda'r Cwch ar gyfer trwsio neu storio a niwed i bobl yn dod ar yr Eiddo neu'r Hafan a / neu yn defnyddio unrhyw ddarpariaeth neu gyfarpar.*

- 3.2 Within 7 days of any agreement for the sale, transfer or mortgage of a Vessel subject to this Agreement the Owner/Customer shall notify the Harbour Authority in writing of the name, address and telephone numbers of the Purchaser, Transferee or Mortgagee, as the case may be.

#### **4.0 USE OF BERTH BY THE HARBOUR AUTHORITY WHEN VACANT**

- 4.1 Owners/Customers holding a Mooring Agreement are not permitted under any circumstances to privately sublet their berth to a third party.

#### **5.0 CHANGE OF DETAILS**

- 5.1 The Owner/Customer must notify the Harbour Authority in writing within 7 days of the details of any change of name of the Vessel or change of address or telephone number of the Owner/Customer.

#### **6.0 BERTH ALLOCATION**

- 6.1 The physical layout of the Harbour and Premises and the varying needs and obligations of the Harbour Authority and Owners/ Customers requires that the Harbour Authority retains absolute control of Berth allocation within the Harbour and Premises. Accordingly, the Owner/Customer shall not be entitled to the exclusive use of any particular Berth but shall use such Berth as is from time to time allocated to him by the Harbour Authority.

#### **7.0 LIABILITY, INDEMNITY AND INSURANCE**

- 7.1 The Harbour Authority shall not be liable for any loss or damage caused by any event or circumstance beyond its reasonable control (such as extreme weather conditions, the actions of third parties not employed by it or any defect in any part of an Owner's/Customer's or third party's Vessel); this extends to loss or damage to Vessels, gear, equipment or other goods left with it for repair or storage, and harm to persons entering the Premises or the Harbour and/or using any facilities or equipment.

- 7.2 *Bydd yr Awdurdod Harbwr yn cymryd pob cam rhesymol i gynnal diogelwch yr Eiddo a chynnal y darpariaethau ar yr Eiddo ac yn yr Hafan mewn cyflwr gwaith rhesymol dda. Yn amodol ar hyn, ac yn absenoldeb unrhyw ddiofalwch neu dor cyfrifoldeb ar ran yr Awdurdod Harbwr, bydd Cychod, cyfarpar a nwyddau eraill a fydd yn cael eu gadael gyda'r Awdurdod Harbwr ar risg y Perchnogion / Cwsmeriaid eu hunain a dylai'r Perchnogion / Cwsmeriaid sicrhau fod ganddynt yswiriant priodol yn erbyn pob risg perthnasol.*
- 7.3 *Ni fydd yr Awdurdod Harbwr yn gyfrifol am achub na chadw Cwch nac eiddo Arall Perchennog / Cwsmer o ganlyniad i unrhyw ddiffyg yn y Cwch neu'r eiddo oni bai ei fod wedi ei benodi gan Berchennog / Cwsmer yn arbennig i wneud hynny ar delerau masnachol. Felly hefyd ni fydd unrhyw gyfrifoldebar yr Awdurdod Harbwr yngor i achub na chadw Cwch neu eiddo arall Perchennog / Cwsmer o ganlyniad i ddamwain nad yw'r Awdurdod Harbwr yn gyfrifol amdani. Fodd bynnag mae'r Awdurdod Harbwr yn cadw'r hawl i wneud hynny o dan rai amgylchiadau, yn enwedig pan beryglir diogelwch pobl, eiddo neu'r amgylchedd. Pan ddigwydd hynny bydd ganddo'r hawl i godi tâl ar y Perchennog / Cwsmer ar sail fasnachol arferol a, ble bo hynny'n addas, hawlio gwobr am arbed.*
- 7.4 *Gallai Perchenogion / Cwsmeriaid fod yn atebol eu hunain am unrhyw golled neu ddifrod a achosir ganddynt, eu criw neu eu Cwch a bydd raid i'r Perchennog / Cwsmer gael yswiriant digonol gan gynnwys ar gyfer trydydd partiön am ddim llai na £3,000,000 a ble bo hynny'n berthnasol, Atebolrwydd Cyflogwr hyd at o leiaf yr isafswm statudol. Bydd raid i'r Perchennog / Cwsmer ddangos tystiolaeth i'r Awdurdod Harbwr o yswiriant o'r fath o fewn saith diwrnod i gais i wneud hynny gan yr Awdurdod Harbwr.*

## **8.0 TERFYNU**

- 8.1 *Bydd gan yr Awdurdod Harbwr hawl (heb ragfarn i hawliau eraill os yw'r Perchennog / Cwsmer yn torri amodau'r Cytundeb hwn) i derfynu'r Cytundeb hwn yn y modd canlynol os yw'r Perchennog / Cwsmer yn torri'r Cytundeb:*

- 7.2 The Harbour Authority shall take all reasonable steps to maintain security at the Premises, and to maintain the facilities at the Premises and in the Harbour in reasonably good working order. Subject to this, and in the absence of negligence or breach of duty on the part of the Harbour Authority, Vessels, gear, equipment or other goods are left with the Harbour Authority at the Owner's/Customer's own risk and Owners/Customers should ensure that they have appropriate insurance against all relevant risks.
- 7.3 The Harbour Authority shall not be under any duty to salvage or preserve an Owner's/Customer's Vessel or other property from the consequence of any defect in the Vessel or property concerned unless it shall have been expressly engaged to do so by the Owner/Customer on commercial terms. Similarly the Harbour Authority shall not be under any duty to salvage or preserve an Owner's/Customer's Vessel or other property from the consequences of an accident for which the Harbour Authority is not responsible. However, the Harbour Authority reserves the right to do so in any appropriate circumstances, particularly where a risk is posed to the safety of people, property or the environment. Where it does so it shall be entitled to charge the Owner/Customer concerned on a normal commercial charging basis and, where appropriate, to claim a salvage reward.
- 7.4 Owners/Customers may themselves be liable for any loss or damage caused by them, their crew or their Vessels and the Owner/Customer shall be obliged to maintain adequate insurance including third party liability cover for not less than £3,000,000 and, where appropriate, Employers' Liability cover to at least the statutory minimum. The Owner/Customer shall be obliged to produce evidence to the Company of such insurance within 7 days of being requested to do so by the Harbour Authority.

## **8.0 TERMINATION**

- 8.1 The Harbour Authority shall have the right (without prejudice to any other rights in respect of breaches of the terms of this Agreement by the Owner/Customer) to terminate this Agreement in the following manner in the event of any breach by the Owner/Customer of this Agreement:



- 8.1.1 *Gan dalu sylw i natur a difrifoldeb y tor a'r risg yn codi o hynny i ddiogelwch ariannol ac fel arall y Cwmni a / neu Berchnogion /Cwsmeriaid yr Awdurdod Harbwr, ac os medrir adfer y tor, bydd hawl gan yr Awdurdod Harbwr i gyflwyno rhybudd i'r Perchennog / Cwsmer yn nodi'r tor ac yn gofyn iddo gael ei adfer o fewn cyfnod rhesymol a nodir gan y Awdurdod Harbwr. Pan fo'r tor yn ddifrifol, neu ei fod yn achosi bygythiad uniongyrchol i iechyd, diogelwch neu les person neu eiddo, gallai'r cyfnod a nodir yn y rhybudd ar gyfer ei adfer fod un a'n hynod fyr neu ar unwaith os nad yw'r Perchennog / Cwsmer yn adfer y diffyg o fewn y cyfnod hwnnw, neu os na ellir ei adfer, bydd hawl gan yr Awdurdod Harbwr i gyflwyno rhybudd i'r Perchennog / Cwsmer yn gofyn iddo fynd â'i Gwch o'r Hafan a'r Eiddo ar unwaith.*
- 8.1.2 *Os nad yw Perchennog / Cwsmer yn mynd â'i Gwch o'r Hafan ar derfyn y Cytundeb hwn, ai o dan yr amod hon ai peidio, bydd gan yr Awdurdod Harbwr yr hawl i:*
- 8.1.2.1 *Godi tâl ar y Perchennog / Cwsmer yn ôl cyfradd 24 awr yr Awdurdod Harbwr ar gyfer ymwelwyr dros nos am bob diwrnod rhwng terfyn y Cytundeb hwn a'r union ddyddiad yr â'r Gwch o'r Hafan a'r Eiddo a / neu:*
- 8.1.2.2 *Ar risg y Perchennog / Cwsmer (ac eithrio ynghylch colled neu ddifrod a achosir gan esgeulustod neu unrhyw dor cyfrifoldeb arall gan yr Awdurdod Harbwr) symud y Gwch o'r Hafan a'r Eiddo ac yna ei adael mewn man arall a chodi tâl ar y Perchennog /Cwsmer am bob cost rhesymol sy'n codi o waith o'r fath gan gynnwys ffioedd docio amgen.*
- 8.1.3 *Bydd pob rhybudd o derfynu o dan y Cytundeb hwn, yn achos Perchennog / Cwsmer, yn cael ei gyflwyno'n bersonol i'r Perchennog / Cwsmer neu'n cael ei anfon gyda phost cofrestredig i gyfeiriad gwybyddus diwethaf y Perchennog / Cwsmer ac, yn achos cwmni, i brif fan busnes y cwmni neu i'w swyddfa gofrestredig.*
- 8.1.4 *Ni fydd yr Awdurdod Harbwr yn atebol am oedi neu fethu â chadw at y cytundeb hwn os nad yw'r Awdurdod Harbwr yn gallu darparu'r cyfleusterau docio arferol o achos fod y Awdurdod Harbwr yn rhwystredig neu ddim mwyach yn ariannol hyfryw oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth, gan gynnwys, heb gyfyngiad, Gweithredoedd Duw, tân, ffrwydriaid, tor cyflenwad gan gyfleustod, gweithred derfysgol, aflonyddwch sifil, llifogydd, storm, trychineb naturiol, difrod damweiniol neu faleisus, colli mynediad o'r môr neu ar dir, gweithred gan lywodraeth neu awdurdod amgylcheddol (gan gynnwys amrywio, gwrthod neu ddiddymu unrhyw drwydded neu ganiatâd).*

